# Adroddiad Blynyddol Annual Report Cyngor Cymuned Bryngwran Community Council

Cafodd Cyngor Cymuned Bryngwran ei ddiwygio yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai 2022. Etholwyd y canlynol: Y Cynghorwyr Iorwerth Roberts, Pat Roberts, Bob Parry a Gethyn Parry. Cyfetholwyd y canlynol yn dilyn yr etholiad: Y Cynghorwyr Neville Evans, Sioned Jones, John Earnshaw, Eve Law Shui Nicholson, Eirian Huws a Ceri Thomas. Ymddiswyddodd Eirian Huws yn ddiweddarach.

Mae'r Cyngor yn cyfarfod ar yr ail ddydd Mercher o bob mis (ac eithrio Awst a Rhagfyr). Cynhelir y cyfarfodydd yn rhithiol.

Etholwyd y Cynghorydd Iorwerth Roberts yn Gadeirydd ar gyfer 2022-2023 a’r Cynghorydd Sioned Jones yn Is-Gadeirydd.

Mae dau Gynghorydd Sir yn cynrychioli'r ardal: y Cynghorwyr Neville Evans a Douglas Fowlie. Mae'r ddau yn mynychu ac yn cefnogi cyfarfodydd y Cyngor Cymuned.

Prynodd y cyngor beiriannau dosbarthu bagiau gwastraff cŵn sydd wedi'u gosod yn y Stryd Fawr, Bryngwran, Lôn Ty Hen a ger Capel Hebron.

Bu'n rhaid symud offer o'r Maes Chwarae oherwydd rhesymau iechyd a diogelwch. Cyflwynodd y cyngor gais am grant ym mis Ionawr i adnewyddu'r offer. Y gobaith yw codi offer newydd yn ystod y misoedd nesaf.

Enwebwyd y Cadeirydd, y Cyng. Iorwerth Roberts i eistedd ar Bwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn i gynrychioli Cyngorhorau Tref a Chymuned yr ynys. Roedd yr enwebiad yn llwyddiannus.

Mae parcio yn y Stryd Fawr a ger Tyn Berllan gan ddefnyddwyr gwasanaeth wedi bod yn broblem barhaus. Maent wedi cael yr opsiwn i barcio yn y fynwent gymunedol.

Trafodwyd sawl cais cynllunio yn ystod y flwyddyn, yn enwedig y Parc Solar yn Nhraffwll. Cytunodd yr aelodau i wrthwynebu'r cais.

Roedd goryrru yn Engedi hefyd ar yr agenda. Cytunodd Gan Bwyll i fonitro'r ardal.

Roedd y ffordd sy'n arwain at y fynwent gymunedol mewn cyflwr gwael. Cytunwyd i gyflogi contractwr lleol i roi wyneb newydd ar y ffordd.

Cytunodd y cyngor hefyd i brynu lloches bws i'w gosod yn y gilfan yn Engedi. Derbyniwyd caniatâd cynllunio yn ddiweddar. Bydd y lloches yn ei le dros y 2 fis nesaf.

Cynigiodd gwirfoddolwr lleol dacluso a phaentio’r rheiliau wrth y gofeb yn y Stryd Fawr cyn y Gwasanaeth Coffa ym mis Tachwedd.

Mae'r cyngor hefyd wedi prynu hysbysfwrdd newydd sydd wedi'i osod wrth y fynedfa i faes parcio'r ysgol.

Mynychodd Jane Jones gyfarfod mis Chwefror i roi diweddariad ar waith Hosbis Dewi Sant.

Dros y flwyddyn ariannol Ebrill 2022 i Fawrth 2023 derbyniodd y Cyngor £14273 mewn incwm gyda chyfanswm gwariant o £10418.

Bryngwran Community Council was reformed following the elections in May 2022. The following were elected: Councillors Iorwerth Roberts, Pat Roberts, Bob Parry and Gethyn Parry. The following were co-opted following the election: Councillors Neville Evans, Sioned Jones, John Earnshaw, Eve Law Shui Nicholson, Eirian Huws and Ceri Thomas. Eirian Huws later resigned.

The Council meets on the second Wednesday of each month (excluding August and December). The meetings are held virtually.

Cllr Iorwerth Roberts was elected as Chairman for 2022-2023 and Cllr Sioned Jones Vice-Chairman.

There are two County Councillors representing the area: Councillors Neville Evans and Douglas Fowlie. They both attend and support the Community Council meetings.

The council purchased dog waste bag dispensers which have been placed at the High St, Bryngwran, Lon Ty Hen and near Hebron Chapel.

Equipment had to be removed from the Playground due to health and safety reasons. The council submitted an application for a grant in January to replace the equipment. It is hoped to erect new equipment in the next few months.

The Chairman, Cllr Iorwerth Roberts was nominated to sit on the Anglesey County Council Standards Committee to represent Town and Community Councils on the island. The nomination was successful.

Parking in the High Street and near Tyn Berllan by service users has been an ongoing problem. They have been given the option to park at the community cemetery.

Several planning applications were discussed over the year, in particular the Solar Park at Traffwll. Members agreed to object to the application.

Speeding at Engedi was also on the agenda. Go Safe agreed to monitor the area.

The road leading to the community cemetery was in a bad state of repair. It was agreed to employ a local contractor to resurface the road.

The council also agreed to purchase a bus shelter to be placed at the lay-by in Engedi. Planning permission was received recently. The shelter will be in place over the next 2 months.

A local volunteer offered to tidy up and paint the railings at the memorial at the High St prior to the Remembrance Service in November.

The council have also purchased a new noticeboard which has been placed at the entrance to the school car park.

Jane Jones attended the February meeting to provide an update on the work of Hosbis Dewi Sant.

Over the financial year April 2022 to March 2023 the Council received £14273 in income with a total expenditure of £10418